

Pecyn Dogfennau
**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN
CYMRU**

Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2017

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Stephen Churchman – Cyngor Sir Gwynedd
(Cadeirydd)

Y Cyng. Elwyn Williams - Cyngor Sir Caerfyrddin;
Y Cyng. Clive Lloyd - Dinas a Sir Abertawe;
Y Cyng. Chris Weaver - Dinas Caerdydd;
Y Cyng. David Hughes - Cyngor Sir y Fflint;
Y Cyng. Peter Lewis - Cyngor Sir Powys;
Y Cyng. Mark Norris - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
Y Cyng. Glyn Caron - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:-

Jeff Dong - Dirprwy Swyddog Adran 151, Cyngor Dinas a Sir Abertawe,
Dafydd Edwards - Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd;
Debbie Fielder - Rheolwr Cyllid Pensiwn, Cyngor Sir y Fflint
Chris Lee - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor
Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
Chris Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir
Caerfyrddin;
Anthony Parnell - Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddi Pensiwn, Sir Gaerfyrddin
Linda Rees Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, Cyngor Sir Caerfyrddin;
Joe Rollin - Rheolwr Cronfa Bensiwn, Cyngor Sir Powys
Graeme Russell - Pennaeth Pensiynau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
Christine Salter - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Dinasol
Caerdydd
Kevin Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir
Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol

John Wright - Hymans Robertson.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 11.00 am - 12.10 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mr Ben Smith (Abertawe) a Mr Phil Latham (Sir y Fflint).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd

G. Caron
G. Caron
S. Churchman
D. Hughes
P. Lewis
C. Lloyd

Y Math o Fuddiant

Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
Mae ei wraig yn aelod gohiriedig o'r gronfa pensiwn
Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;

M. Norris Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;
E. Williams Aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol;

3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR Y 29AIN MEHEFIN, 2017

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at gofnod rhif 4 – Cofnodwyd bod y Cynghorydd M. Norris wedi cael ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor. Dywedwyd bod y cofnod yn anghywir, a dylid nodi mai'r Is-gadeirydd yw'r Cynghorydd Norris.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar y newid canlynol, lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017 yn gofnod cywir.

4. CRYNODEB O LIF GWAITH

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad cynnydd ynghylch y ffrydiau gwaith caffael a llywodraethu ar 30 Medi 2017.

Amlinellodd Mr John Wright o Hymans Robertson wrth y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran yr amserlen i penodi Gweithredwr a chydymffurfio â dyddiad cau Llywodraeth y DU ar gyfer cyflwyno Cynllun Contractiol Awdurdodedig i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Er bod yr amserlen gychwynnol wedi llithro 7 wythnos, oherwydd yr angen i gael eglurhad ar elfennau amrywiol o'r cynigion a gafwyd rhagwelwyd y byddai'r cynnig yn cyd-fynd â'r dyddiad cau.

Cam nesaf y broses fyddai i'r Cyd-bwyllgor ystyried yr adroddiad a oedd yn cael ei gyflwyno ger ei fron y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 8) ynghylch penodi cynigydd a ffafir fel Gweithredwr ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac i wneud argymhelliad ffurfiol i'r 8 Awdurdod Gweinyddol i'w ystyried, a'i gymeradwyo, ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2017. Yn amodol ar yr awdurdodau hynny yn cymeradwyo'r argymhelliad, byddai Hysbysiad Dyfarnu yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017 gyda'r Cytundeb Gweithredwr terfynol yn cael ei gadarnhau ym mis Ionawr 2018.

Cafodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariad gan Mr Parnell ynghylch y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan yr Ymarferwyr ar adolygu strwythurau'r is-gronfeydd sy'n rhan o faes y Gweithredwr. Bydd y cynigion hynny'n cael eu cyflwyno i'r Gweithgor Swyddogion ar 1 Rhagfyr gan ddechrau gydag asedau hylifol (bondiau ac ecwitiâu), yna cronfeydd mantoli/eiddo a dosbarthiadau asedau eraill. Byddai'r gwaith hwn yn rhoi syniad i'r Gweithredwr penodedig o'r math o is-gronfeydd y byddai'r Bartneriaeth yn awyddus i'w gweld. Yna byddai trafodaethau'n cael eu cynnal â'r Gweithredwr ynghylch yr amserlen o ran sefydlu'r is-gronfeydd a'r manylion amdanynt.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y 7 wythnos o oedi, ac unrhyw risgiau posibl eraill y gallai oedi'r broses o gyflwyno'r Cynllun Contractiol Awdurdodedig, dywedodd Mr Wright ar yr amod fod pob awdurdod gweinyddu'n cymeradwyo penodiad y Gweithredwr, ni ddylai fod unrhyw oedi. Fodd bynnag, o ran y risgiau posibl eraill, er bod Eitem 4 ar yr Agenda (tudalennau 23-24) yn nodi nifer o risgiau, ystyriwyd bod y rhain yn risg isel.

Gan gyfeirio at y risgiau posibl wrth fynd ati i sefydlu Partneriaeth Pensiwn Cymru, dywedodd Mr Dafydd Edwards wrth y Pwyllgor fod cadernid a llwyddiant y cynllun yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer aelodau'r pensiwn, yn hytrach na bodloni unrhyw amserlenni.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddar y nghylch y ffrwd gwaith.

5. ADRODDIAD CYNNYDD HYDREF DCLG

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ddogfen Adolygiad yr Hydref i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n cynnwys:

- Cyfanswm gwerth amcangyfrifedig yr asedau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun pontio ar gyfer buddsoddi drwy strwythur y gronfa sy'n gyfanswm o £16.3b ar ddiwedd mis Mehefin 2017;
- Cyfanswm gwerth amcangyfrifedig yr asedau i'w buddsoddi y tu allan i strwythur y gronfa gan gronfeydd sy'n gyfanswm o £3b;
- Cynllun prosiect lefel uchel er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei gyflawni erbyn mis Ebrill 2018 gan gynnwys y cynnydd o ran caffael/datblygu gweithredwr, dylunio is-gronfeydd, recriwtio'r tîm craidd, penodi cwmni a chael gan awdurdodiad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol;
- Risgiau neu broblemau a allai olygu oedi cyn mis Ebrill 2018, ac unrhyw gynlluniau i liniaru risgiau neu reoli materion;
- Cynnydd o ran trefniadau llywodraethu;
- Cynnydd o ran buddsoddi mewn seilwaith ac amserlen i gyflawni'r uchelgais a nodir.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch penodi'r tîm craidd yn Sir Gaerfyrddin, fel yr awdurdod cynnal, dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai hysbyseb wedi'i neilltuo yn cael ei gosod o fewn pob un o'r 8 Awdurdod Gweinyddu yn y Flwyddyn Newydd ar gyfer penodi Uwch-swyddog Gwasanaethau Ariannol. Os na fyddai unrhyw geisiadau addas yn dod i law drwy'r broses honno, byddai hysbyseb yn cael ei rhoi ar y farchnad agored.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y costau o £50-£350k yn ystod y cyfnod 2018-2021, dywedwyd wrth y Pwyllgor eu bod yn gysylltiedig â nifer o ffactorau, gan gynnwys costau ymgynghori gan Hymans Robertson, a benodwyd i gynorthwyo â'r broses, costau cyfreithiol ar gyfer Burges Salmon chostau'r awdurdod cynnal. Yn dilyn penodi Gweithredwr, byddai disgwyl i'r costau ostwng ac, yn y pen draw y Gweithredwr fyddai'n gyfrifol am y costau a'u monitro wrth i'r contract fynd rhagddo.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

6. NODIADAU CYFARFODYDD Y GWEITHGOR SWYDDOGION AR GYNHALIWDYD AR YR DYDDIADAU CANLYNOL

6.1. 28AIN GORFFENAF 2017

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod y Gweithgor Swyddogion a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf yn cael eu derbyn.

6.2. 4YDD MEDI 2017

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y Gweithgor Swyddogion a gynhaliwyd ar 4 Medi 2017.

7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

8. ADRODDIAD DETHOL GWEITHREDWR

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 18 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat, gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn tansellio safle'r Bartneriaeth mewn perthynas â'i hawliau a'i chyfrifoldebau o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Roedd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn rhoi ystyriaeth i adroddiad ar benodi gweithredwr ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell y canlynol i Bwyllgorau Cronfa Pensiwn Awdurdodau Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- (1) Penodi Cynigydd 1 fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer proses gaffael Partneriaeth Pensiwn Cymru**
- (2) yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Cytundeb Gweithredwr, penodi Cynigydd 1 yn Weithredwr yn unol â'r Cytundeb Gweithredwr.**

CADEIRYDD

DYDDIAD